**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 29 MEDI 2022 DYDD IAU, 29 MEDI 2022**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors
C. Smith (Aelod Llywyddol)
C. Bainton
P. Baldwin
S. Behr
D. Bevan
K. Chaplin
M. Cross
H. Cunningham
D. Davies
M. Day
S. Edmunds
J. Gardner
J. Hill
W. Hodgins
G. Humphreys
R. Leadbeater
E. Jones
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
D. Rowberry
T. Smith
G. Thomas
J. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
L. Winnett
D. Woods

WITH: Prif Weithredwr Interim
Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol
Prif Swyddog Adnoddau
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau
Pennaeth Adfywio
Rheolwr Gwasanaeth – Profiad Cwsmeriaid a Thrawsnewid
Rheolwr Gwasanaeth – Pobl Ifanc a Phartneriaethau
Swyddog y Wasg a Chyhoeddusrwydd

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:<br>Cynghorwyr G. A. Davies a J. Holt. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau buddiant dilynol:<br><br>**Eitem 3: Cynllun Dewisol Costau Byw**<br>Cynghorwyr K. Chaplin, W. Hodgins, H. Trollope<br><br>**Eitem Rhif 19: Adroddiad Blynyddol 2021/22 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>Cynghorydd W. Hodgins | |
| **No. 4** | **<u>CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD</u>**<br><br>**<u>Cydymdeimlad</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | - Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II a fu farw ddydd Iau 8 Medi. Roedd Ei Mawrhydi wedi esgyn i'r orsedd yn 1952 ac wedi gwasanaethu am dros 70 mlynedd – teyrnasiad hiraf unrhyw frenin neu frenhines ym Mhrydain a'r hiraf mewn hanes ar gyfer unrhyw fenyw yn bennaeth gwladwriaeth.<br><br>Mynegwyd cydymdeimlad gyda theuluoedd:<br>- Cyn Gynghorydd a Maer y Fwrdeistref Sirol, Keith Barnes, a fu farw ar 12 Awst gwta 25 diwrnod ar ôl ei wraig Val. Roedd Keith wedi cynrychioli Ward Cwm am dros 30 mlynedd yn ystod ei gyfnod fel Cynghorydd.<br><br>- Mr Jeff Wheeler, cyn aelod o staff y Cyngor, a fu farw yn ddiweddar.<br><br>Dangosodd aelodau a swyddogion eu parch gyda munud o ddistawrwydd.<br><br>Nodwyd yr anfonwyd llythyrau priodol o gydymdeimlad.<br><br>**<u>Llongyfarchiadau</u>**<br><br>Estynnwyd llongyfarchiadau i:<br><br>➢ Charlotte Carey ar ennill medal efydd yn y dyblau tenis bwrdd gyda'i phartner Anna Hursey yng Ngemau'r Gymanwlad yn Birmingham.<br><br>Hon oedd y fedal tennis bwrdd gyntaf i fenyw o Gymru ei hennill yng Ngemau'r Gymanwlad.<br><br>➢ Owain Dando a Jonathan Tomlinson ar ennill medal efydd yn nigwyddiad bowls trebl y dynion gyda'i bartner tîm Ross Owen yng Ngemau'r Gymanwlad yn Birmingham.<br><br>Anfonwyd llythyrau priodol at bob enillydd medal. | |
| **No. 5** | **<u>LLYFR COFNODION – GORFFENNAF-MEDI 2022</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Llyfr Cofnodion ar gyfer y cyfnod Gorffennaf-Medi 2022 i gael ei ystyried. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd mai dim ond penderfyniadau cyfarfodydd fyddai’n cael eu hadrodd o hyn ymlaen ac nid y cofnodion llawn fel mewn blynyddoedd blaenorol.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau’r cofnodion. | |
| **No. 6** | **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 7** | **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 8** | **PWYLLGOR CRAFFU CYNLLUNIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **PWYLLGOR GWEITHREDIAETH**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **PWYLLGOR SAFONAU**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 12** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **CWESTIYNAU AELODAU**<br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan Aelodau. | |
| **No. 14** | **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**<br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan aelodau o’r cyhoedd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 15** | **CYNNIG – DATGARBONEIDDIO CRONFEYDD PENSIWN CYMRU**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r cynnig yn ymwneud â datgarboneiddio cronfeydd pensiwn Cymru<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol eraill a rhannau eraill o'r sector cyhoeddus i ddatblygu strategaeth ar y cyd ar gyfer datgarboneiddio'r buddsoddiadau a wnaed gan eu cronfeydd pensiwn ac ailgyfeirio'r buddsoddiad hwnnw i brosiectau seiliedig yng Nghymru sy'n datgarboneiddio defnydd ynni a hefyd gynhyrchu ynni. | |
| **No. 16** | **CYNNIG – IAWN I GYFLOGEION A GOLLODD MAS AR GYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL LLYWODRAETH CYMRU**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r cynnig uchod.<br><br>Yn dilyn trafodaeth,<br><br>PENDERFYNWYD, er mwyn cydnabod ymroddiad a gwaith caled gweithwyr cyflogedig yn Datblygu Gweithlu, Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, i ddyrannu taliad unigol o £735 o Gyllideb Gorfforaethol y Cyngor i'r gweithwyr a gollodd mas ar y cynllun a rhoi iawn am yr anghyfiawnder yr oeddent wedi ei ddioddef. | |
| **No. 17** | **BLAENRAGLEN GWAITH ARFAETHEDIG 2022-23 Y CYNGOR**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Democrataidd.<br><br>Nodwyd fod y Flaenraglen Gwaith yn ddogfen sy'n newid ac yr ychwanegir ati dros gyfnod. Yng nghyswllt pryder a godwyd na chynhwyswyd eitem yn ymwneud â'r rhwydwaith Priffyrdd, er bod cyllideb refeniw ar gael ar gyfer 2022/23 i wneud atgyweiriadau o ddydd, nad oedd arian grant cyfalaf ar gael ar hyn o bryd a fyddai'n caniatáu buddsoddiad ychwanegol yn y rhwydwaith ffyrdd. Fodd bynnag, pe byddai cyfleoedd cyllid yn dod ar gael neu gyllid arall yn cael ei ddynodi, gallai'r Cyngor benderfynu sut y dylid rhoi blaenoriaeth i hynny a'i wario. Os nad oes mwy o gyfleoedd cyllid ar gael, cynhelir trafodaethau gydag Aelodau yn ymwneud â | |

| | | |
|---|---|---|
| | blaenoriaethau unwaith y bydd canlyniad cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn hysbys ym mis Rhagfyr.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar Flaenraglen Gwaith 2022/23 y Cyngor. | |
| **No. 18** | **<u>POLISI CYFARFOD AML-LEOLIAD</u>**<br><br>Gadawodd y Cynghorydd D. Rowberry y cyfarfod ar y pwynt hwn.<br><br>Ystyriodd Aelodau adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Perfformiad a Democrataidd.<br><br>Roedd hwn yn bolisi fyddai'n newid ac a gaiff ei addasu wrth i'r Cyngor symud ymlaen a chaiff ei fonitro gan Aelodau bob hyn a hyn.<br><br>Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd bod hysbysiadau cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi yn yr Hybiau Cymunedol ac adeilad y Swyddfeydd Cyffredinol er mwyn rhoi gwybod i bobl heb ddarpariaeth technoleg gwybodaeth am y cyfarfodydd sydd ar y gweill. Yn ychwanegol, yn nhermau hunaniaeth gan mai adeilad y Swyddfa Gyffredinol yw bellach yr Hyb Democrataidd, byddid yn ymchwilio mater arwyddion ond ni fyddai hyn yn ffurfio rhan o'r polisi hwn.<br><br>Nodwyd er nad oedd y system hybrid yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd, y gallai Aelodau ddal fynychu cyfarfodydd yn y Swyddfeydd Cyffredinol er drwy Microsoft Teams ar hyn o bryd nes y dynodir datrysiad.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad a'i ddefnyddio i gefnogi pob cyfarfod democrataidd a sesiynau aelodau yn y dyfodol. | |
| **No. 19** | **<u>CYNLLUN DEWISOL COSTAU BYW</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorwyr K. Chaplin, W. Hodgins a H. Trollope fuddiant yn yr eitem hon ond fe wnaethant aros yn y cyfarfod tra'i bod yn cael ei thrafod.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol a | |

| | | |
|---|---|---|
| | Chwsmeriaid.<br><br>Dywedwyd fod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Pherfformiad yn ei gyfarfod ar 23 Medi 2022 wedi cynnig newid bach i'r argymhelliad, sef darparu £30,000 i Fanc Bwyd Blaenau Gwent fel y prif dderbynnydd a sefydlu cronfa ddewisol o £70,000 i alluogi grwpiau/sefydliadau dosbarthu bwyd lleol eraill i wneud cais i'r Cyngor am gyllid i gynorthwyo gyda chyflawni gwaith yn eu cymunedau eu hunain. Cytunodd y Pwyllgor i'r cynnig i ddarparu £50,000 i Gyngor ar Bopeth i alluogi adnoddau ychwanegol i gefnogi cyngor ariannol/dyled i unigolion ar draws Blaenau Gwent.<br><br>Cymeradwyodd Arweinydd y Cyngor y dylid cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Craffu.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chytuno ar y newid a awgrymir uchod i'r Cynllun Dewisol Costau Byw (Opsiwn 2).<br><br>Mynegwyd gwerthfawrogiad gwresog i'r holl bobl hynny yn y gymuned, cyn ac aelodau presennol y cyngor oedd wedi cynorthwyo'r banciau bwyd yn neilltuol yn ystod y pandemig. | |
| **No. 20** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2021/2022</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorydd W. Hodgins fuddiant yn yr eitem hon ond arhosodd yn y cyfarfod tra'i bod yn cael ei thrafod.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol i gael ei ystyried.<br><br>Mynegodd yr Aelod Gweithrediaeth – Pobl a Gwasanaethau Cymdeithasol ei werthfawrogiad i staff am eu holl waith caled ymroddiad ac ymrwymiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cyhoeddi Adroddiad Blynyddol 2021/2022 y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Dywedodd yr Aelod Gweithrediaeth – Pobl a Gwasanaethau Cymdeithasol cynhaliwyd Arolwg Estyn ar y Tîm Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid yn ddiweddar ac y cafodd y gwasanaeth ei | |

| | | |
|---|---|---|
| | asesu fel 'da'. Gofynnodd am i longyfarchiadau a gwerthfawrogiad gael ei anfon at bawb oedd yn gysylltiedig am eu holl waith caled ac ymdrechion yn ystod proses yr arolwg. | |
| **No. 21** | **<u>ADRODDIAD AELODAETH</u>**<br><br>**Rhoddwyd ystyriaeth i:**<br>**<u>PANEL YMGYNGHOROL AR GYFER LLYWODRAETHWYR AWDURDODAU LLEOL</u>**<br><br>Gwnaeth y Panel yr argymhellion dilynol ar 22 Medi 2022 i benodi mewn egwyddor:<br>**Ysgol Gynradd Coed-y-Garn –** Ken Jones<br>**Ysgol Gynradd yr Holl Saint –** Laura Newall<br>**Ysgol Gymraeg Bro Helyg –** Cynghorydd Peter Baldwin a Rebecca Legge<br>**Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair –** Angela Davies<br>**Ysgol Anghenion Arbennig Pen-y-Cwm –** Cynghorydd Jen Morgan, Y.H.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r penodiadau uchod<br><br>**<u>PWYLLGOR CRAFFU POBL</u>**<br><br>Penodi Rhianna Lewis, Cynrychiolydd y Fforwm Ieuenctid ar y Pwyllgor uchod.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau penodiad Rhianna Lewis, Cynrychiolydd y Fforwm Ieuenctid, ar y Pwyllgor uchod.<br><br>**<u>BWRDD LLYWODRAETHIANT Y GWASANAETH MABWYSIADU CENEDLAETHOL</u>**<br><br>Nodwyd y daeth y Bwrdd uchod yn gyfrifol am Maethu Cymru.<br><br>Ailgadarnhawyd penodi Aelod Gweithrediaeth Pobl a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Bwrdd uchod.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>**<u>GWEITHGOR ANIFEILIAID STRAE/TRESMASU GAN ANIFEILIAID</u>**<br><br>PENDERFYNWYD sefydlu'r Gweithgor uchod a phenodi'r Aelodau | |

| | | |
|---|---|---|
| | dilynol:<br><br>Aelod Gweithrediaeth – Lle ac Amgylchedd (Cadeirydd)<br>Cadeirydd – Pwyllgor Craffu Lle<br><br>Nodwyd y caiff y Cynghorydd L. Winnett yn awr ei phenodi i'r Gweithgor yn lle'r Is-gadeirydd – Pwyllgor Craffu Lle.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH i wahodd Aelod o'r Grŵp Annibynnol i fynychu cyfarfodydd o'r Gweithgor. | |
| **No. 22** | **<u>EITEMAU EITHRIEDIG</u>**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiad dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitem(au) eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylai'r wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o'r cyfarfod (mae'r rheswm dros y penderfyniad am yr eithriad ar gael ar restr a gedwir gan y swyddog priodol).<br><br>Gadawodd y Pennaeth Adfywio y cyfarfod ar y pwynt hwn. | |
| **No. 23** | **<u>LLUNIO RHESTR HIR – SWYDDOGION JNC</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i gyfarfod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Medi 2022.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion staffio a'r penderfyniadau a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 24** | **<u>LLUNIO RHESTR FER – SWYDDOGION JNC</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth, fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn | |

| | | |
|---|---|---|
| | datgelu’r wybodaeth ac y dylai’r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio’r cyhoedd tra cynhaliwyd yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y’i diffiniwyd ym Mharagraffau 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2022.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy’n cyfeirio at faterion staffio a nodi’r penderfyniadau a gynhwysir ynddo.<br><br>Dywedwyd yn dilyn y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 28 Medi 2022 y penodwyd Ms. Eleanor Fry i swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Llongyfarchwyd Eleanor ar ei phenodiad newydd. | |